PWYLLGOR CYFLAWNI RHAGLENNI – CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU I'W CYMRYD

09:30-12:50 | 06 Tachwedd 2025 | MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	**Blaenly threnn au**	**Teitl**	**Sefydliad**
David Selway	DS	Cadeirydd y Pwyllgor	IGDC
Ruth Glazzard	RG	Cadeirydd Dros Dro'r Bwrdd	IGDC
Marian Wyn Jones	MJ	Aelod Annibynnol	IGDC

Yn bresennol	**Blaenlythrennau**	**Teitl**	**Sefydliad**
Ifan Evans	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	IGDC
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Lee Mullin	LM	Cyfarwyddwr y Rhaglen	IGDC
Matt Cornish	MC	Cyfarwyddwr Rhaglen DSPP	IGDC
Rebecca Cook	RC	Prif Swyddog Data	IGDC
Belinda Mills	BM	Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	IGDC

Acronymau			
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru
NDR	Adnodd Data Cenedlaethol	LINC	Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru
SRO	Uwch Swyddog Cyfrifol	BAU	Busnes fel Arfer

DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol	IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
WCCIS	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	LIMS	System Rheoli Gwybodaeth Labordy
AB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	CTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
LIC	Llywodraeth Cymru	PDC	Y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni
DMC	Mamolaeth Ddigidol Cymru	OBC	Achos Busnes Amlinellol
EPS	Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig	RISP	Caffael y System Gwybodeg Radioleg
UAT	Profion Derbynioldeb Defnyddwyr	CDR	Y Storfa Data Gofal
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	LIC	Llywodraeth Cymru
IQPD	Cynllunio a Darparu Ansawdd Integredig	WIVS	Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	DDaT	Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	**Croeso a Chyflwyniadau** Croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Darparodd y Cadeirydd hefyd hysbysiadau cadw tŷ ynghylch agweddau technegol ar gofnodi'r cyfarfod, yr egwyl arfaethedig, a'r disgwyliadau o ran ymddygiad safonol.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** • Sam Hall, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl • Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol • Rowan Gardner, Aelod Annibynnol	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	**Datganiadau o Fuddiant** Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO			
2.1	**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf** • Cyhoeddus **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni:**	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi

	GYMERADWYO cofnodion y cyfarfod diwethaf.		
2.2	**Blaengynllun Gwaith** **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: NODI'R** Blaengynllun Gwaith	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.3	**Teipoleg y Rhaglen** **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: NODI'R** adroddiad.	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 3 - PRIF AGENDA			
3.1	**Cofnod Gweithredu** Nododd y Pwyllgor fod un cam gweithredu ar y cofnod camau gweithredu sydd bellach wedi'i gwblhau. **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: NODI'R** Cofnod Gweithredu.	Trafodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 4 - ER SICRWYDD			
4.1	**Adroddiadau Sicrwydd Blynyddol** Cyflwynodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (IE), yr adroddiad gan nodi bod y Pwyllgor yn nodi ei ddyflwyddiant ers ei sefydlu ym mis Tachwedd 2023. Tynnodd IE sylw at gynnydd sylweddol o ran gwella cysondeb, sefydlogrwydd a thryloywder adrodd ar raglenni. Esboniodd IE y byddai'r cyfarfod yn dilyn y fformat diweddaru blynyddol arferol, gan adolygu tair prif raglen yn fanwl: Cysylltu Gofal, Ap GIG Cymru, a rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol. **System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a Chysylltu Gofal** Cyflwynodd Lee Mullin, Cyfarwyddwr Rhaglen (LM) yr adroddiad gan nodi bod • y rhaglen Cysylltu Gofal wedi disodli System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sy'n cael ei datgomisiynu oherwydd bod ei phlatfform yn cyrraedd diwedd ei oes. • Mae Cysylltu Gofal bellach yn canolbwyntio ar gefnogi Byrddau Iechyd i fabwysiadu systemau newydd ar gyfer iechyd cymunedol ac iechyd meddwl, gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar gyfer safonau gofal a data integredig. • Mae cyllid ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi'i sicrhau (£8 miliwn wedi'i rannu rhwng cyfalaf a refeniw), ond mae cyllid yn y dyfodol yn ansicr. • Mae caffael a gweithredu atebion newydd ar y gweill, gyda'r nod o'u cwblhau erbyn 2028, er y gallai hyn fod yn heriol.	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w Nodi

- Mae'r rhaglen hefyd yn datblygu cofnod gofal integredig i alluogi rhannu data, sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod darganfod. Mae'r risgiau'n cynnwys caffael dameidiog ymhlith byrddau iechyd, mudo data, a'r angen am sicrwydd cyllido aml-flwyddyn. Mae llywodraethu'n cael ei gryfhau i sicrhau dull cydlynol ledled Cymru

Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd

Cyflwynodd Matt Cornish, Cyfarwyddwr Rhaglen (MC) DSPP, yr adroddiad

- Mae gan Ap GIG Cymru bellach dros 609,000 o ddefnyddwyr cofrestredig, gyda 250,000 o ddefnyddwyr gweithredol bob mis ac ymgysylltiad cynyddol mewn nodweddion fel trefnu apwyntiadau gyda meddyg teulu a phresgripsiynau rheolaidd.
- Carreg filltir bwysig oedd cyflwyno nodweddion gofal eilaidd, gan gynnwys atgyfeiriadau rhestr aros ac apwyntiadau ysbyty, sydd bellach ar gael mewn chwech allan o saith Bwrdd Iechyd, gyda Chaerdydd a'r Fro yn aros i integreiddio data.
- Mae'r ap yn anfon dau ddeg pump mil o negeseuon bob dydd am atgyfeiriadau ac apwyntiadau, dolenni i byrth cleifion, ac yn darparu amseroedd aros amcangyfrifedig.
- Mae nodweddion ychwanegol a lansiwyd yn cynnwys Dilysiad Hunaniaeth Cymru, cofrestru rhoddwyr organau, a dangosfwrdd newydd ar gyfer dadansoddeg defnydd amser real.
- Mae'r tîm yn canolbwyntio ar welliannau pellach megis moddion digidol, enwebu fferyllfeydd, olrhain presgripsiynau, canlyniadau a adroddir gan gleifion, a mynediad awdurdodedig i ofalwyr.
- Pwysleisiodd MC bwysigrwydd adborth gan ddefnyddwyr, ymgysylltiad parhaus â'r gymuned, a'r angen am ymgyrch gyfathrebu genedlaethol unwaith y bydd pob Bwrdd Iechyd yn fyw.
- Mae heriau'n parhau o ran mynediad cyson at apwyntiadau meddyg teulu, amrywiadau mewn byrddau iechyd, a'r angen am welliant parhaus a rheoli dyled dechnegol.

Adnodd Data Cenedlaethol

Cyflwynodd Rebecca Cook, Prif Swyddog Data (RC) yr adroddiad gan nodi bod yr

- Adnodd Data Cenedlaethol (ADN) yn rhaglen strategol 10 mlynedd i ddarparu galluoedd data a dadansoddeg Cymru gyfan, gan gefnogi trawsnewid digidol ar draws iechyd a gofal.
- Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol wedi'i ffederaleiddio, sy'n cynnwys IGDC, Byrddau

	Iechyd, Ymddiriedolaethau, a Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda chynlluniau cyflawni canolog a phartneriaid. • Mae cynhyrchion craidd yn cynnwys y Storfa Data Gofal (un ffynhonnell wirionedd ar gyfer data dinasyddion), Llwyfan Dadansoddi Data (ar raddfa fenter, wedi'i beiriannu ar gyfer preifatrwydd), ac Amgylchedd Data Diogel (ar gyfer astudiaethau cydweithredol gan gynnwys y byd academaidd, diwydiant, iechyd a gofal.) • Mae'r holl systemau hyn wedi symud ymlaen trwy gamau dylunio, sicrhau a chynhyrchu ac maent bellach yn gweithredu fel gwasanaethau hanfodol yn glinigol 24/7 gyda chymorth a rheolaeth lawn. • Mae Cam 4 yn canolbwyntio ar fudo data i ystorfeydd newydd a manteisio ar werth, gyda chyflawniadau diweddar yn cynnwys demograffeg, siartiau twf, a data cyfarfyddiadau Cymru gyfan yn llifo i'r Ystorfa Data Gofal (yn yr arfaeth yng Nghaerdydd a'r Fro). • Mae Amgylchedd Data Diogel yn cael ei ail-lwyfannu, gyda chydweithrediadau ymchwil diweddar wedi'u galluogi. • Mae rhannu data diogel rhwng sefydliadau bellach yn bosibl trwy olygfeydd platfform a rennir, gan leihau dyblygu. • Heriau allweddol: sicrhau bod data yn cael ei ysgrifennu/ei ddarllen i/o'r Adnodd Data Cenedlaethol, mandadau cyfreithiol a chytundebol, a chydymffurfiaeth â safonau technegol. • Astudiaethau achos: prosesu iaith naturiol ar gyfer testun clinigol, dadansoddeg ragfynegol ar gyfer cynllunio, ac integreiddio data siart twf amser real. **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni:** **NODI'R** Adroddiad er **SICRWYDD**.		
RHAN 5 – LLYWODRAETHU, RISG, PERFFORMIAD A SICRWYDD			
5.1	**Adroddiad Rhaglenni Mawr** Cyflwynodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (IE), yr adroddiad a thynnodd sylw at y ffaith bod yr adroddiad yn olrhain statws rhaglenni allweddol ac yn tynnu sylw at eitemau sydd wedi'u huwchgyfeirio neu sydd â statws coch o'r portffolio ehangach. **System Gweinyddu Cleifion Cymru (Pontio Pen-y-bont ar Ogwr – effaith ar y system genedlaethol)** Tynnodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd "Heb ei Asesu"	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w nodi

	• Cwblhawyd y broses o drosglwyddo data cleifion o Fae Abertawe i System Gweinyddu Cleifion Cymru Cwm Taf Morgannwg yn llwyddiannus rhwng 16 a 19 Mai 2025 ar ôl sawl blwyddyn o waith. • Roedd y penwythnos mynd yn fyw yn llyfn, gyda dim ond problemau ansawdd data bach a gafodd eu datrys yn gyflym. • Mae'r adroddiad terfynol llawn a'r gwersi a ddysgwyd yn dal i gael eu paratoi, ond mae canfyddiadau cynnar yn pwysleisio'r angen am alluoedd profi gwell ar gyfer newidiadau cymhleth, ar draws y system. • Cyfrannodd cydweithio cryf rhwng sefydliadau, yn enwedig yn ystod y misoedd olaf, at lwyddiant y prosiect. **System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru** Tynnodd Michelle Sell (MS), Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu, sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd llwyd “Heb ei Asesu” • Roedd rhaglen System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS) wedi'i gohirio am tua 18 mis tra'n aros am adolygiad annibynnol i asesu diogelwch y defnydd. • Mae argymhellion yr adolygiad wedi cael sylw, gan gynnwys llywodraethu gwell ac ymgysylltiad clinigol cryf, gan arwain at sefydlu bwrdd goruchwylio newydd, arweinwyr clinigol ym mhob Bwrdd Iechyd, a grŵp cynghori clinigol. • Mae mireinio cyflenwyr wedi'i nodi, ac mae fersiwn brawf o'r system yn cael ei gwerthuso gan glinigwyr ym Mae Abertawe. • Mae heriau diogelwch allweddol o'r adolygiad wedi cael sylw, gyda rhanddeiliaid yn derbyn argymhellion. • Mae bwrdd y rhaglen yn cefnogi symud ymlaen, ac mae papur wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo a chael cyllid ychwanegol. • Mae pryder y gallai oedi pellach wrth wneud penderfyniadau beryglu ymgysylltiad cyflenwyr a chlinigwyr; y targed yw penderfyniad erbyn diwedd mis Tachwedd. **Caffael System Gwybodaeth Radioleg** Tynnodd Michelle Sell (MS), Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu, sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Coch” • Mae'r broses weithredu ar y gweill drwy gontractau ar wahân gyda phob Bwrdd Iechyd. • Mae defnyddiau cynnar (Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a BIPBC) wedi mynd yn fyw;		

	roedd trosglwyddiad BIPBC yn heriol ond mae defnyddwyr yn falch o'r system newydd, ac mae gwersi'n cael eu rhannu â Byrddau Iechyd eraill • Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda nesaf wedi'i drefnu i fynd yn fyw ar 1 Rhagfyr 2025 ac adroddir ei fod ar y trywydd iawn. • Nodwyd bod rheoli contractau ar wahân wedi bod yn anodd, felly mae IGDC yn cymryd rôl gydlynu a goruchwylio gryfach, yn enwedig ar gyfer Mudo Data a Rheoli Contractau. • Mae sicrhau bod mudo data a mynediad at ddelweddau traws-fwrdd yn ffocws allweddol, ac mae ymgysylltiad parhaus â Philips ar lefel strategol i gynnal manteision cenedlaethol. • Y targed cwblhau ar gyfer y rhaglen yw erbyn mis Mawrth 2026, er bod un Bwrdd Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) wedi symud ei gweithrediad i fis Mai 2026. • Mae'r amserlen gywasgedig ar gyfer gweithrediadau lluosog ddechrau 2026 yn her, ac mae monitro agos o gapasiti a chymorth cyflenwyr ar y gweill. **System Rheoli Gwybodaeth Labordy** Tynnodd Michelle Sell (MS), Cyfarwyddwr Rhaglenni ac Ymgysylltu, sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Coch” • Mae rhan 1 (adeiladu technegol ac integreiddio) wedi' chwblhau ac yn fyw; mae rhan 2 (sy'n cwmpasu patholeg gellog, corffdy ac androleg) wedi'i drefnu i fynd yn fyw ym mis Tachwedd ac mae'r profion terfynol ar y gweill. • Mae'n debygol y bydd yr elfen trallwysiad gwaed yn ymestyn y tu hwnt i'r targed gwreiddiol o fis Mawrth 2026. • Mae Byrddau Iechyd yn cydweithio'n agos, gan rannu cyfrifoldebau profi, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalar yn arbennig o ragweithiol. • Nododd MS fod y rhaglen mudo system batholeg yn anelu at ddisodli system etifeddol yn ddiogel erbyn mis Mawrth 2026, er bod y defnydd ar gyfer y swyddogaeth trallwysiad gwaed yn debygol o bara i'r flwyddyn ariannol nesaf (Ebrill/Mai). Y rheswm yw natur gymhleth a dwys o ran adnoddau mudo degawdau o ddata hanesyddol manwl. Y nod o hyd yw cwblhau'r mudo cyn dyddiad cau uwchraddio seilwaith ym mis Awst 2026. **Fframwaith Systemau Meddygon Teulu** Tynnodd Lee Mullin, Cyfarwyddwr y Rhaglen, sylw at: • Statws cyffredinol RAG “Gwyrdd” • Mae trosglwyddo'r contract i'r cyflenwr newydd		

	wedi'i gwblhau ac mae'r rhaglen bellach yn ehangu, gan dargedu o leiaf ddwy feddygfa'r wythnos ar gyfer mudo. • Adroddir bod y cynnydd ar y trywydd iawn ac yn symud ymlaen yn gyflym, gyda chymorth da gan gyflenwyr a dim problemau mawr wedi'u nodi ar hyn o bryd. **Cytundeb Microsoft 365 Enterprise** Tynnodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd "Gwyrdd" • Esboniodd SL fod Cytundeb Menter Microsoft 365 yn gontract cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru sy'n cwmpasu offer bwrdd gwaith a chynhyrchiant fel system weithredu, pecynnau Microsoft 365 (Word, Excel PowerPoint a Teams) a gwasanaethau e-bost. Mae'r cytundeb hwn yn chwarae rhan sylfaenol wrth sicrhau y gall sefydliadau GIG Cymru weithredu'n effeithlon fel system integredig, gan alluogi cydweithio a diogelwch cyson ar draws yr ystâd gyfan. Nid yw'n cynnwys gwasanaethau seilwaith cwmwl Microsoft (e.e., Azure), sy'n cael eu caffael ar wahân. Mae'n werth £30 miliwn y flwyddyn ac yn cael ei reoli gan IGDC. Mae'r contract presennol yn rhedeg o dan strwythur blwyddyn 3 + 1 + 1. • Mae'r adnewyddiad contract sydd ar ddod yn anelu at gytundeb Cymru gyfan newydd erbyn mis Mehefin y flwyddyn nesaf, gan adlewyrchu newidiadau mawr yn y dirwedd ddigidol yn enwedig gydag offer AI fel Copilot a phwysau chwyddiant digidol (a ddyfynnwyd yn 11%) yn creu heriau fforddiadwyedd. • Mae Ymarfer Darganfod sy'n cynnwys holl sefydliadau GIG Cymru wedi'i gwblhau i ddarlunio gofynion; mae strwythurau llywodraethu (tasglu, bwrdd prosiect) ar waith ac mae trafodaethau gyda Microsoft yn parhau. • Mae manteision y cytundeb sengl yn cynnwys pŵer prynu cyfunol, tenantiaeth unedig (gwella cydweithio a diogelwch), offer diogelwch cyson, a mabwysiadu gwell trwy fodel "Canolfan Ragoriaeth". • Er gwaethaf yr amser aros hir i bob golwg tan fis Mehefin, pwysleisiodd SL fod yr amserlenni'n dynn, gan fod angen alinio cylchoedd cynllunio ariannol a chymeradwyaethau bwrdd ar draws sefydliadau i wneud y contract newydd yn hyfyw. **Pontio i'r Cwmwl** Tynnodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd		

	“Melyn–Gwyrdd”. • Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo gyda dwy flynedd o gyllid wedi'i sicrhau; mae cyfarfod gwirio 18 mis gyda Llywodraeth Cymru wedi'i gynllunio i adolygu cynnydd. • Mae'r cyfnod symud wedi dechrau, wedi'i drefnu'n dair ffrwd waith: Galluogi (dylunio amgylcheddau cwmwl a diogelwch), Mudo (symud gwasanaethau o ganolfannau data i'r cwmwl) a Thrawsnewid Strategol (ailwampio modelau gweithredu ac adeiladu galluoedd hunanwasanaeth). • Mae tîm mewnol craidd IGDC bellach ar waith, gan gynnwys arweinydd prosiect a phenseiri mewn meysydd allweddol. • Mae gweithgaredd caffael yn mynd rhagddo: mae RFI (Cais am Wybodaeth) wedi'i gyhoeddi ac mae adborth gan gyflenwyr wedi bod yn gadarnhaol. Maent yn targedu dyfarnu “Lot 2” (y lot mudo mawr) erbyn Ch1 y flwyddyn ariannol nesaf, a “Lot 3” (trawsnewid strategol) erbyn Ch4 y flwyddyn gyfredol. **Moddion Digidol** **Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS)** Tynnodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Gwyrdd”. • Mae saith miliwn a hanner o bresgripsiynau wedi cael eu prosesu hyd yn hyn, ond mae hwn yn gyfran fach o'r cyfanswm blynyddol (80 miliwn). • Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda, gyda'r bwriad o gwblhau mudo meddygon teulu i Optum erbyn mis Mai/Mehefin a chyflwyno EPS yn llawn erbyn mis Tachwedd, flwyddyn cyn yr amserlen wreiddiol. • Disgwylir i'r rhaglen sicrhau arbedion sylweddol o ran amser a chost, gan dynnu ar dystiolaeth o fanteision o Loegr. • Nid yw cyllid parhaus ar gyfer EPS y tu hwnt i'r broses gyflwyno wedi'i sicrhau eto ac mae'n cael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru. **Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau Electronig (EPMA)** Tynnodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Gwyrdd”. • Mae chwe Bwrdd Iechyd wedi llofnodi contractau; mae Caerdydd a'r Fro wedi mynd yn fyw, mae Cym Taf Morganwg yn mynd yn fyw yn fuan, a bydd Betsi Cadwaladr yn dilyn. Mae pob un yn anelu at		

	gael mynd yn fyw yn y lle cyntaf erbyn mis Mawrth 2026. • Rôl IGDC yw cefnogi, hwyluso rhannu gwybodaeth a dysgu drwy'r llywodraethu digidol newydd a Bwrdd Arweinyddiaeth DDaT. Mae byrddau iechyd yn adrodd ar gynnydd eu EPMAs yn uniongyrchol i'r Bwrdd hwn ac nid ydynt yn atebol i'r rhaglen genedlaethol. • Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw systemau'n fyw mewn cynhyrchiad gyda'r storfa honno, er bod sawl un mewn amgylcheddau prawf. Mae cynnydd integreiddio yn amrywio. Mae Better (Betsi) ar y trywydd iawn, tra bod angen gwaith pellach ar NerveCentre (Caerdydd a Chwm Taf). **Rhaglen Gwybodeg Canser** Tynnodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Gwyrdd”. • Nododd IE ddiweddglo llwyddiannus Canisc, system wybodaeth canser etifeddol 25 mlwydd oed a oedd wedi bod ar gofrestr risg GIG Cymru ers 2015 fel system heb gefnogaeth a diwedd ei hoes. • Caewyd y system i bob defnyddiwr ar 24 Hydref 2025, ychydig yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd oedi wrth fudo cofnodion colposgopi a datrys rhai problemau cymhleth gyda data cleifion. • Mae adroddiad diwedd y rhaglen wedi'i lofnodi, gyda dim ond archwiliad terfynol a chymeradwyaeth glinigol yn weddill. • Mae'r broses o ddatgomisiynu'n llawn ar y trywydd iawn i'w chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n nodi cyflawniad sylweddol. • Mae gwaith digidol canser y dyfodol bellach wedi newid i fodel sy'n seiliedig ar gynnyrch o dan y Cyfarwyddwr Cyswllt, tîm Cynhyrchion o fewn ardal cynhyrchion y Cofnod Sengl. **Hwb Integreiddio** Tynnodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (SL), sylw at: • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Gwyrdd” • Mae'r gwasanaeth perchnogol presennol yn cael ei ddisodli gan gynnyrch a adeiladwyd yn fewnol er mwyn cael mwy o reolaeth, hyblygrwydd a chefnogaeth well ar gyfer integreiddio sy'n cael ei lywio gan ryngwyneb rhaglennu cymwysiadau. • Mae'r platfform newydd yn cael ei ddatblygu gyda phartner, a'r cynllun yw gadael y partner erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a throsglwyddo'r ddarpariaeth i dimau mewnol. • Mae cyfnod alffa wedi'i gwblhau gyda phrofion llwyddiannus o'r dechrau i'r diwedd yn Azure; mae		

	cyflwyno beta ar y gweill, gyda'r llif cynhyrchu cyntaf i'w ddisgwyl cyn y Nadolig a llifau sy'n dod i mewn o'r mynegai cleifion meistr ar y gweill. • Mae'r prosiect yn cael ei redeg yn ystwyth, gan symud ymlaen trwy gamau darganfod, alffa a beta mewn sbrintiau. Mae hefyd yn cefnogi staff i ddatblygu sgiliau technegol newydd. • Mae'r gwasanaeth integreiddio dan bwysau sylweddol oherwydd ei ganologrwydd, ac mae'r platfform newydd yn anelu at wella effeithlonrwydd a graddadwyedd i leddfu rhwystrau. **Y Saernïaeth Darged Genedlaethol** Tynnodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, sylw at • Y statws Coch Melyn Gwyrdd cyffredinol oedd “Melyn–Gwyrdd”. • Nod y prosiect Saernïaeth Targedau Cenedlaethol yw nodi a mynd i'r afael â dyled dechnegol ar draws GIG Cymru, fel systemau etifeddol fel Canisc, er mwyn atal risgiau ac aneffeithlonrwydd yn y dyfodol. • Yn ddiweddar, cwblhaodd y prosiect saernïaeth wladwriaeth darged ddrafft, a gyflawnwyd ar amserlen ddiwygiedig, a disgwylir iddo symud yn ôl i statws gwyrdd. • Mae ymgysylltiad cryf gan benseiri ar draws GIG Cymru, gyda chymuned o ymarfer yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o fireinio'r saernïaeth. • Mae'r camau nesaf yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i gwblhau'r saernïaeth a chomisiynu partner allanol i ddatblygu cynllun buddsoddi strategol sy'n amlinellu costau a dilyniant ar gyfer trosglwyddo i'r cyflwr targed. • Bydd y saernïaeth yn cefnogi dewisiadau system cenedlaethol a lleol, gyda'r nod o leihau darnio a galluogi penderfyniadau achos busnes gwybodus ynghylch cydgrynhoi systemau yn erbyn ymreolaeth leol. • Mae gan y gwaith gefnogaeth gref gan Lywodraeth Cymru ac mae'n mynd rhagddo'n gyflym, gyda chyflawniadau sylweddol yn ystod y pedwar mis diwethaf. **Adnodd Data Cenedlaethol** Trafodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol **Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a’r Cyhoedd** Trafodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol **Cysylltu Gofal**		

	Trafodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: NODI'R** Adroddiad Rhaglenni Mawr er **SICRWYDD**.		
5.2	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd yr adroddiad gan nodi bod 18 o risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol, a bod saith ohonynt wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor. Amlygwyd y risgiau canlynol: • DHCW0237 Effaith gofynion newydd ar adnoddau a'r cynllun • DHCW0298 Oedi wrth Weithredu WLIMS 2.0 • DHCW0333 Oedi Gweithredu WICIS • DHCW0318 Cydymffurfiaeth Cynllun Iaith Gymraeg • DHCW0347 Map Trywydd Pontio Saernïaeth Darged Genedlaethol • DHCW0348 Pontio i bensaernïaeth data newydd • DHCW0349 Tîm RADIS yn lleihau 25/26 • DHCW0298 Oedi wrth Weithredu WLIMS 2.0: • DHCW0237 (Ail-uwchgyfeirio) - Effaith gofynion newydd ar adnoddau a'r cynllun: Pwysleisiodd CD fod y risgiau hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau allanol a mewnol cynyddol sy'n rhoi pwysau ar gyflawni a chynllunio a'r angen i liniaru'r pwysau hyn, yn enwedig gan fod cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2026/27 ar y gweill, a nododd ymdrechion parhaus i adlewyrchu gofynion ychwanegol mewn prosesau cynllunio a blaenoriaethu. • DHCW0351 Newidiadau yn y dirwedd wleidyddol yng Nghymru • Mae'r risg a gafodd ei dileu yn cynnwys Cyllid ar gyfer Cysylltu Gofal ar gyfer 2025/26 y flwyddyn ariannol hon. **Dadansoddiad Tueddiadau Risg Corfforaethol:** • DHCW0300 – Sgrinio Canisc a Gofal Lliniarol; Nododd CD, er bod ei sgôr risg gyfredol yn isel iawn, ei fod yn parhau ar y gofrestr oherwydd ei hanes 10 mlynedd. Mae CD yn disgwyl iddo gael ei ddatgomisiynu'n llwyr a'i dynnu oddi ar y gofrestr erbyn diwedd y flwyddyn. • DHCW0318 – Cydymffurfiaeth â Chynllun y Gymraeg - Ap GIG Cymru: Nododd CD ei fod yn dibynnu ar risg barhaus o ran cydweithio â phartneriaid. • DHCW0331 – Oedi wrth Weithredu WICIS: Nododd CD ei fod ar y gofrestr am 12 mis oherwydd proses adrodd hirfaith o 18 mis; mae penderfyniad hollbwysig yn yr arfaeth i liniaru'r risg.	Trafodwyd a Nodwyd	Dim i'w nodi

	Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni: • **DRAFOD** y Risgiau Corfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni • **NODI** statws y Gofrestr Risg Gorfforaethol. • **NODI'R** adroddiad dadansoddi tueddiadau blynyddol		
5.3	**Statws Uwchgyfeirio – Diweddariad ar y Cynllun Gwella** Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd y diweddariad • Ymhlith y cyfraniadau diweddar roedd dau gyfarfod CDAI a gynhaliwyd ar 22 Medi 2025 a 27 Hydref 2025 gyda Llywodraeth Cymru ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor a oedd yn trafod cyflawniadau cerrig milltir, cerrig milltir yn y dyfodol, risgiau, ac ymchwiliadau manwl i Saernïaeth Targedau Cenedlaethol Medi 2025 ac Ap GIG Cymru Hydref 2025 gyda nodwedd apwyntiadau gofal eilaidd Ffocws ar y Golwg. • Canolbwyntiodd y trafodaethau hefyd ar deipoleg, y fframwaith masnachol, a'r dull unwaith i Gymru (cerrig milltir 10.3 a 10.4), gyda'r camau nesaf i fynd â'r gwaith at Gyfarwyddwyr y Grŵp Cyfoedion Digidol, gan ymgorffori adborth ar gyfer trafodaeth Bwrdd Arweinyddiaeth DDAT ym mis Ionawr ochr yn ochr â gwersi o'r cynllun gwella. Tynnodd y diweddariadau ar raglen Mamolaeth Cymru sylw at ddull diwygiedig gyda Byrddau Iechyd a rôl IGDC. • Adroddodd CD ar raglenni diagnostig, camau adolygu ymgysylltu â rhanddeiliaid, a rhaglenni statws uwchgyfeirio a adolygwyd gan Dîm Rheoli'r Prif Weithredwyr ym mis Hydref, gan gynnwys gofal dwys, gofal cysylltu, Ap GIG Cymru, a diagnosteg. • Ymdriniodd Bwrdd Arweinyddiaeth DDAT diweddar â'r rhaglenni hyn hefyd a nododd amserlenni cyflawni ar gyfer pedwerydd chwarter 2025. • O blith 36 o gerrig mlltir a drefnwyd erbyn diwedd mis Hydref, cyflawnwyd 35 yn llawn, gydag un wedi'i chyflawni'n rhannol. Cafodd rhai cerrig milltir eu gohirio: colposgopi yn mynd yn fyw am naw diwrnod, cytundebau rheolwyr data ar y cyd am sawl mis oherwydd dibyniaethau partneriaid, a chyflwr dyfodol Saernïaeth Darged am fis, sydd bellach wedi'i gwblhau. • Mae Ap GIG Cymru yn parhau i fod wedi'i gyflwyno'n rhannol, nid yw ar waith yng Nghaerdydd a'r Fro eto, er ei fod ar waith mewn chwech allan o saith bwrdd iechyd. Darparwyd diweddariadau ar gerrig milltir mis Medi i Lywodraeth Cymru. • Cadarnhaodd CD fod yr oedi gyda Saernïaeth Darged bellach wedi'i ddatrys, a bod ap GIG	Rhoddwyd sicrwydd	Dim i'w nodi

	Cymru ar waith mewn chwech allan o'r saith Bwrdd Iechyd. **Dyma'r pedwar carreg filltir ar gyfer Hydref 2025:** • 4.3 Adnewyddu safonau data wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Saernïaeth a Safonau Cenedlaethol newydd (o dan Fwrdd Arweinyddiaeth DDaT) wedi'i farcio fel wedi'i gwblhau. • 5.1 Adroddiad cryno ar fap ffordd llywodraethu a gweithredu Rhaglen RISP drwy fwrdd y rhaglen. Wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru • 5.2 Adroddiad cryno ar fap ffordd llywodraethu a gweithredu Rhaglen LIMS2 drwy fwrdd y rhaglen: Wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru • 10.5 Cyfleoedd, heriau a dysgu system o uwchgyfeirio Iechyd a Gofal Iechyd (IGDC) i'w cofnodi a'u cyflwyno i'r Llywodraeth Cymru/partneriaid mewn perthynas â chyflawni rhaglenni mawr: Cadarnhaodd CD fod adroddiadau wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru a bod dysgu system iechyd digidol rhyngwladol ychwanegol wedi'i ymgorffori. **Penderfynodd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni:** **NODI** statws presennol y Cynllun Gwella Uwchgyfeirio Monitro gan gynnwys y diweddariad ar safle cerrig milltir Medi 2025 a cherrig milltir Hydref 2025		
RHAN 6 - MATERION I GLOI			
Unrhyw Faterion Brys Eraill • Ni chodwyd unrhyw fater brys.		Trafodwyd	Dim i'w nodi
Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i Fwrdd SHA Cytunodd y Cadeirydd i gynnwys uchafbwyntiau ar WICIS, LIMS, mudo data, a chyllid EPS yn yr adroddiad sydd ar ddod i Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig. The Chair agreed to include highlights on the risk to the WICIS program, the potential delay on LIMS due to blood transfusion data migration, potential delay to RISP due to ABUHB delaying implementation and EPS funding in the upcoming report to the SHA board		Nodwyd	Dim i'w nodi
Dyddiad y cyfarfod nesaf: • 5 Chwefror 2026		Nodwyd	Dim i'w nodi